Miss Pamela Beer (266)

[redacted]

20 Gorffennaf 2016

Ms Sharon Ellis

Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd

Swyddfa'r Cyngor

Stryd y Jêl

CAERNARFON

LL55 1SH

I'r sawl a fynno wybod,

CYNLLUN ADNAU: **PENYBRYN COTTAGE:** **Rhif y Sylw 976**

**Adran – Map 7 – Porthmadog**

1924 Prynodd Capten Thomas Whittaker Penybryn a'r tir.

1927 Adeiladwyd y bwthyn oddeutu'r cyfnod hwn – gweler y cynllun a gopïwyd o'm Gweithredoedd. Newidiwyd amlinelliad y plot i ymgorffori'r byngalo gyda gardd gefn fawr (amgaeir copi).

1939 Prynodd yr Henadur Samuel V Beer (fy nhaid) eiddo Penybryn. Defnyddiwyd y bwthyn fel eiddo cysylltiedig i gartrefu'r gwas fferm a'i deulu. Roedd Penybryn yn cael ei redeg fel fferm gyda stablau, beudy, cwt moch, cywion a ieir batri.

1947 Tynnodd fy nhaid luniau o Benybryn o'r awyr. Mae'r olygfa a welir o'r bwthyn wedi'i chwyddo i ddangos yr ardd gefn gyda sied a llwyn terfyn byr yn rhedeg hanner ffordd ar draws y plot ond NID YW'N parhau i fyny'r banc tua'r ffens a oedd yn rhedeg ar hyd banc serth (amgaeir copi).

1950 Prynodd Mr Harold V Beer (fy nhad – roeddwn i’n 2 oed ar y pryd) eiddo Penybryn a pharhau i’w redeg fel fferm am rai blynyddoedd. Parhau i gael ei ddefnyddio fel eiddo cysylltiedig wnaeth y bwthyn. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, dirywio wnaeth gwaith y fferm a defnyddiwyd y tir i bori ceffylau ond parhawyd i gyflogi *handyman*/garddwr hyd 1983.

1988 Symudais i’r bwthyn gyda’m teulu.

2000 Rhoddodd fy nhad y bwthyn i mi yn anrheg ac yna cwrtil yr eiddo oedd fy ffin i.

Wrth siarad â’m tad, nid oedd yn gwybod pam bod llinell yn rhedeg ar draws hanner yr ardd gefn. Roeddem wedi bwriadu gwirio hyn ond aeth yn angof. Bu farw ar 5 Ebrill 2012.

2013 Wrth i mi ymweld â ffrind, dangosodd Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001-2016 i mi ar ei gyfrifiadur ac arno gwelais bod hanner fy ngardd gefn wedi’i gynnwys fel Man Agored wedi’i Warchod. Roeddwn wedi fy syfrdanu - sut allai hyn fod wedi digwydd heb i mi gael unrhyw ohebiaeth nac ymweliad gan Gyngor Gwynedd?

Wrth chwilio ar y we, gwelais o Fapiau Arolwg Ordnans:

**MAPIAU AROLWG ORDNANS:**

**Llyfrgell Genedlaethol Yr Alban:**

| | | |
|---|---|---|
| (Gwynedd) | Cyhoeddwyd: 1948 – dim bwthyn i’w weld | |
| | Cyhoeddwyd: 1954 – dim ond yn dangos y bwthyn | |

**Old-maps.co.uk:**

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf:

| | | |
|---|---|---|
| (Meirioneth) | Cyhoeddwyd: 1963: | dim ond yn dangos y bwthyn |
| | Cyhoeddwyd: 1970: | dim ond yn dangos y bwthyn |
| | Cyhoeddwyd 1976: | llinell yn ymddangos / dim maes parcio |
| | Cyhoeddwyd 1976 hyd 1993: | llinell/ dim maes parcio |

***<u>Am bron i 50 mlynedd, dim marciau llinell ar fapiau AO</u>*** *– adeiladwyd y bwthyn yn y 1920au hwyr.*

Siaradais â Chyfreithiwr fy nhad a dywedodd wrthyf mai’r cwrtil yw fy llinellau terfyn i (MEWN COCH) ac <u>nad ydyw’n</u> gwybod pam fod y llinell wedi ymddangos. (copi wedi’i gyflwyno’n barod gyda’m gwrthwynebiadau).

Ysgrifennais at Swyddfa’r Gofrestrfa Dir i sicrhau bod fy ffiniau yn gywir. Gwnaeth y Cyfreithiwr gamgymeriad pan y dynododd fy nhad ddarn ychwanegol o dir yn y blaen i’w ddefnyddio fel maes parcio a chafodd hyn ei gywiro’n ddiweddarach. Mae fy ffin yn y tu blaen, sydd bellach wedi’i ffensio i ffwrdd, yn cychwyn wrth wal Rockliffe, sef cornel eiddo Mr Piercy, ar draws i’r trac.

*** 15 Awst 2014:** derbyniais ymateb. Ffoniais a siaradais â Gerald Dyer (Uwch Swyddog Gweithredol Gwaith Achos). Dywedodd wrthyf na fu unrhyw gadarnhad o gwrtil yn fy eiddo ond mai eu prif bryder hwy oedd y ffiniau.

Anfonais lythyr ac fe siaradais ag Arolwg Ordnans unwaith eto ac ni allant egluro o ble ddaeth y llinell (nid oes ganddynt archif ac nid ydynt yn cadw nodiadau).

*** 28 Awst 2014:** derbyniais ymateb. Ffoniais a siaradais â Kate Noss (Ymgynghorydd Cwsmer) a dywedodd wrthyf nad oedd y mapiau ond yn cynrychioli nodweddion ar y ddaear ac na ddylid eu derbyn fel cynrychiolaeth gywir (wastad yn newid).

*** 29 Medi 2014:** derbyniais ymateb arall gan Natalie Moore (Ymgynghorydd Gwasanaeth Cwsmer) yn cydnabod y byddai'r llinell yn cael ei thynnu oddi ar y Prif Fap AO fyddai'n cael ei ryddhau ym mis Tachwedd.

Mae gennyf gopïau o'r uchod a byddaf yn mynychu'r gwrandawiad ar 28 Medi 2016.

Yn gywir,

Pamela Beer (266)

Atodiadau